# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Y Grŵp Trawsbleidiol ar Covid hir |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 26/01/2022 |
| **Lleoliad:** | Zoom |

## Yn bresennol:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Rhun ap Iorwerth AS (Cydgadeirydd) | Aelod o'r Senedd |
| Hefin David AS (Cydgadeirydd) | Aelod o'r Senedd |
| Sarah Murphy AS | Aelod o'r Senedd |
| Heledd Roberts | Swyddfa Rhun ap Iorwerth AS |
| Alex Still | Swyddfa Hefin David AS |
| Ken Moon | Swyddfa Heledd Fychan AS |
| Georgia Walby | Long Covid Wales |
| Dr Ian Frayling | Long Covid Wales |
| Sian Griffiths | Long Covid Wales |
| Edward Sliz | |
| Dr Helen Davies | Ymgynghorydd Anadlol yn Ysbyty Llandochau, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. |
| Sharon Dutton | Swyddfa Dr Helen Davies |
| Mark Smith | Wales Online |
| Theresa Howe | |
| Dee | FTWW |
| Julie James | |
| Dale Thomas | |
| Rhiannon Moore | |
| Helen James | |
| Emma Kavanagh | |
| Will Ayes | |
| Lee David Bowen | |
| Leanne Jagne | |
| Meena Upadhyaya | |
| Kat | |
| Eleri Morgan | |
| Katie Goddard | |
| Kathryn Tancock | |
| Mair Hambly | |
| Nicholas Webb | Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol |

Commented [CM(CyS|SC1]: There are a few names in the list without surnames

| | |
|---|---|
| Kris<br>Helen Marchant<br>J Mclellan<br>G Williams<br>Chloe James<br>Geraint Jones<br>Elena Collins<br>Joanne E | |

## Ymddiheuriadau:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Llefarydd: Dr Helen Davies, Ymgynghorydd Anadlol yn Ysbyty Llandochau, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro.

Mae Dr Davies wedi gweld dros 300 o gleifion Covid hir. Dywedodd wrthym fod tua 76,000 o bobl yn dioddef o Covid hir yng Nghymru a bod yr amcangyfrif hwnnw fwy na thebyg yn rhy isel. O blith y rhain, mae 73 y cant yn fenywod (mae'r rhesymau'n anhysbys) a'r oedran cyfartalog yw 49. Nid yw chwarter y dioddefwyr Covid hir erioed wedi profi'n bositif am nad oedd profion ar gael iddynt. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, dylid derbyn diagnosis clinigol yn lle canlyniad prawf.

Yn ôl y canfyddiadau cychwynnol ar gyfer 100 o gleifion a gymerodd ran mewn treial yng Nghaerdydd a Rhydychen, mae 25 y cant o bobl wedi methu â dychwelyd i'r gwaith ar sail amser llawn, ac yn achos 33 y cant arall, mae eu dyletswyddau wedi cael eu haddasu.

Rhoddodd Dr Davies y wybodaeth ddiweddaraf i ni am y rhaglenni ymchwil sy'n cael eu cynnal a/neu'n recriwtio yng Nghymru ar hyn o bryd. Dylai unrhyw un sydd am gymryd rhan yn y rhaglenni ymchwil Covid hir gysylltu ag ysgrifennydd Dr Davies, Sharon Dutton, yn Ysbyty Llandochau (ar gael drwy brif switsfwrdd yr ysbyty).

Ar ddiwedd y sgwrs, diolchodd Georgia Walby i Dr Davies am ei holl waith gyda dioddefwyr Covid hir a dywedodd ei bod yn rhyddhad enfawr i gleifion gael gweld meddyg sydd â phrofiad o Covid hir ac sy'n gyfarwydd â'r problemau y mae'r salwch newydd hwn yn eu hachosi.

Rhoddodd Georgia y wybodaeth ddiweddaraf gan Long Covid Wales:

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ymateb i'n hymateb i Lywodraeth Cymru (y ddeiseb “Agor canolfannau/clinigau meddygol un stop Covid Hir”). Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi cytuno i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd yn gofyn sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a sut mae lleisiau cleifion yn cael eu clywed ar y mater hwn.

Mewn ymateb i sylwadau diweddar y Prif Weinidog, cadarnhaodd Georgia fod nifer fawr o aelodau o Long Covid Wales yn cael eu gorfodi i ddefnyddio gofal iechyd preifat oherwydd y rhestrau aros hir a'r diffyg atgyfeiriadau sydd ar gael drwy'r GIG ar gyfer Covid hir, a bod y llwybr atgyfeiriadau meddygon teulu yn dal i beri problemau mawr i lawer o'r aelodau.

Rhoddodd Leanne Jagne ddiweddariad i'r cyfarfod: Mae merch Leanne yn 17 oed ac yn byw yn ardal Bwrdd Iechyd Cwm Taf. Ar hyn o bryd mae hi'n absennol o'r ysgol ac yn gaeth i'w gwely oherwydd Covid hir a gwrthodwyd atgyfeiriad iddi weld Dr Davies ac nid yw Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn barod i dalu am hynny. Mae Leanne hefyd wedi gofyn i'w meddyg teulu atgyfeirio ei merch at y gwasanaeth Covid hir lleol ond mae'r meddyg teulu wedi dweud bod yn rhaid iddi aros nes bydd hi'n 18 oed gan fod hwn yn wasanaeth i oedolion yn unig. Nid oes gwasanaeth Covid hir i blant.